Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Gwybodaeth i Gleifion**

# Cystosgopi Hyblyg ac Ablodiad Trawswrethrol (TULA)

**Adran Wroleg**

---

**Beth yw systosgopi hyblyg?**
Pasio Systosgop (telesgop) trwy’r wrethra (pibell ddŵr) i mewn i’r bledren. Mae hyn yn caniatáu i’r meddyg / nyrs edrych y tu mewn i’ch pledren a’ch wrethra.

**Beth yw’r manteision o gael y llawdriniaeth hon?**
I ddatgelu unrhyw beth abnormal yn yr wrethra neu'r bledren.

**Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cael y systosgopi hyblyg?**
Gofynnir i chi roi sampl wrin i wirio nad oes gennych haint yn eich wrin. Os oes gennych haint ni chaiff y systosgopi ei wneud ar y diwrnod hwn. Efallai bydd y meddyg yn rhoi antibiotigau i chi ac yn gofyn i chi ddod bythefnos yn hwyrach i gael y systosgopi hyblyg.

Os yw eich wrin yn glir, gofynnir i chi newid i mewn i ŵn a gorwedd ar y soffa. Bydd nyrs yn glanhau o amgylch agoriad y bibell ddŵr gydag antiseptig. Yna bydd y meddyg / nyrs yn pasio’r systosgop i mewn i’ch wrethra i’r bledren. Efallai y bydd hyn yn teimlo’n rhyfedd ac y cewch ychydig o anghysur o hyn. Gallai fod yn anghyffyrddus i ddynion wrth i’r camera basio i mewn i’r bledren, dylai’r anghysur hwn basio ar ôl i’r systosgop gyrraedd y bledren. Gallai gwthio i lawr fel pe baech yn pasio wrin wneud pasio’r ardal yma’n llai anghyffyrddus.

Caiff dŵr ei redeg trwy'r systosgop i mewn i’ch pledren gan fod hyn yn ein galluogi i weld y bledren yn well. Efallai y byddwch yn teimlo fel eich bod eisiau pasio wrin wrth i’ch pledren lenwi. Os bydd hyn yn anghyffyrddus rhowch wybod i’r nyrs / meddyg a gellir stopio’r dŵr. Os byddwch yn teimlo’n anghyffyrddus ar unrhyw bryd rhowch wybod.

**Pa mor hir fydd y prawf?**
Tua 5 munud.

**Fydd y meddyg / nyrs yn rhannu’r canlyniadau gyda mi ar unwaith?**
Bydd. Bydd y meddyg / nyrs yn esbonio eu canfyddiadau cychwynnol ac os bydd angen gwneud unrhyw beth pellach.

**Oes unrhyw risgiau?**

| | |
|---|---|
| **Cyffredin** | Gwaedu neu losgi ysgafn wrth basio wrin am gyfnod byr ar ôl y systosgopi. |

| | |
|---|---|
| **Achlysurol** | Haint wrin y bydd gofyn cael antibiotigau i'w drin. |
| **Prin** | Gwaedu sy'n gofyn cael gwared ar glotiau neu lawdriniaeth bellach.<br>Anaf i'r bibell ddŵr (wrethra) sy'n achosi creithiau'n ddiweddarach.<br>Mewnosod cathetr dros dro (tiwb yn cael ei osod i mewn i'r bledren). |

**Beth yw'r dewisiadau eraill?**
Nid yw systosgopi dan anaesthetig cyffredinol fel prawf diagnostig yn cael ei wneud yn aml, ond mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn ofynnol.

**Gwybodaeth Rhyddhau**
- Gallech weld gwaed yn eich wrin, mae hyn yn normal a dylai glirio ar ôl 1-2 diwrnod.
- Gallai losgi wrth i chi basio wrin, dylai hyn wella dros y diwrnod.
- Os byddwch yn datblygu tymheredd, ac os bydd eich wrin yn ddrewllyd / cymylog ac yn llosgi wrth basio wrin, gallai fod yn arwyddo o haint wrin. Dylech gysylltu â'ch meddyg teulu oherwydd efallai bydd angen cwrs o antibiotigau arnoch.
- Gallwch yfed a bwyta yn ôl yr arfer. Dylech geisio yfed o leiaf 1.5 – 2 litr o hylif yn ystod y dydd ar ôl eich systosgopi, oni bai bod meddyg wedi dweud wrthych am gyfyngu eich hylif. Bydd hyn yn helpu i leihau eich risg o haint.
- Gallwch yrru a dychwelyd i'r gwaith ar ôl eich prawf os dymunwch.
- Gallwch gael rhyw cyn gynted ag yr ydych yn teimlo'n gyffyrddus i wneud hynny.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-**

**Wardiau Wroleg:-**

D 5 Gorllewin:- 01633 – 234040 / 234041 (24 awr )

**Ward Dydd Wroleg:-**

Ffôn: 01633 – 656378 / 656377 Llun – Gwener oriau swyddfa

**Adran Cleifion Allanol Wroleg:-**

Ffôn: 01633 – 234979
Llun – Gwener oriau swyddfa

Janet Marty, Nyrs Arbenigol Wro-oncoleg:-
Ffôn: 01633 – 656143
Llun – Gwener oriau swyddfa

Maureen Hunter a Laura Reynolds, Nyrsys Wroleg:-
Ffôn: 01633 – 234758
Llun – Gwener oriau swyddfa

Julie Simpson, Nyrs Arbenigol Wro-oncoleg:-
Ffôn: 01633–238976
Llun – Gwener  oriau swyddfa

Sian Lewis, Nyrs Arbenigol Wro-oncoleg:-
Ffôn: 01633–238976

Stef Young, Nyrs Cyn-mynediad:-
Ffôn: 01633–234533
Llun – Gwener  oriau swyddfa

**Cyfeiriad:**

Cymdeithas Llawfeddygon Wrolegol Prydain (2004) Ffurflenni Caniatâd Gweithdrefn Benodol ar gyfer Llawdriniaeth Wrolegol

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**